Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# St David’s College

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchly thyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/05/2014**

## Cyd-destun

Mae St David's College yn ysgol ddydd a phreswyl annibynnol sy'n addysgu bechgyn a merched rhwng 9 a 18 oed. Prif adeilad yr ysgol yw Neuadd Gloddaeth, sef plasty o'r 16eg ganrif sydd mewn 34 erw o dir ychydig i'r de o Landudno, Gogledd Cymru.

Agorodd yr ysgol ym 1965 fel elusen addysgol a sefydlwyd trwy Weithred Ymddiriedolaeth, er mwyn darparu addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Cenhadaeth yr ysgol yw "datblygu'r person cyflawn trwy addysg eang a seiliwyd ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordebau a gweithgareddau, a rhaglen bersonol gyflawnadwy i bob disgybl". Caiff yr ysgol ei gweinyddu gan fwrdd llywodraethwyr.

Ar hyn o bryd, mae 238 o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn 2009, agorodd yr ysgol ddosbarth Blwyddyn 6 sydd â naw disgybl ar hyn o bryd. Yn 2013, caniatawyd newid perthnasol i'r ysgol fel y gallai dderbyn disgyblion Blwyddyn 5 lle y bo'n briodol. Mae 174 o ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed yn yr ysgol uwch, a 59 arall yn y chweched dosbarth. O'r rhain, mae 82 yn ddisgyblion preswyl.

Mae St David's College yn addysgu disgyblion sydd ag ystod eang o alluoedd gwahanol, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl yn academaidd. Mae tua 55% o ddisgyblion wedi cael diagnosis o ddyslecsia neu anhawster dysgu penodol arall. Mae gan un deg naw y cant o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac ariennir eu lleoliadau gan eu hawdurdodau lleol cartref.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf yn Hydref 2012. Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2009. Penodwyd cydlynydd anghenion addysgol arbennig newydd ym Medi 2013.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn yn mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad A163 2012;
- mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda iawn yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd ar draws pob cyfnod allweddol;
- mae'r ysgol yn cynnig ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau i ffwrdd o'r safle, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gyflawni llwyddiant;
- mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau defnyddiol iawn sy'n ymestyn profiadau dysgu pob disgybl;
- mae'r addysgu'n cael ei gynllunio'n dda;
- caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli'n dda gan uwch staff a llywodraethwyr sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir ac sydd â disgwyliadau uchel o staff a disgyblion; ac

- mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer datblygu'r ysgol, yn cynllunio'n fanwl ac yn gallu dangos effaith eu gwaith o ran gwneud gwelliannau i'r ysgol gydag amser.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw maes yr ysgol i'w ddatblygu:**

- er ei bod wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol, megis dechrau y mae gwaith yn ymwneud â dau o'r argymhellion.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu strategaethau i gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Mireinio ymhellach brosesau arsylwi gwersi fel bod rheolwyr yn gallu casglu ac arfarnu tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd addysgu a dysgu

A3 Lle y bo'r addysgu yn rhagorol, gwneud yn siŵr bod athrawon yn rhannu eu harfer dda ar draws yr ysgol

A4 Parhau i ddatblygu rôl staff arbenigol mewn gwersi prif ffrwd

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd ar draws pob pwnc i sicrhau bod disgyblion mwy abl, yn benodol, yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Fe wnaeth craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi yn ystod yr ymweliad arddangos enghreifftiau o ysgrifennu estynedig yn y rhan fwyaf o bynciau, yn arbennig i ddisgyblion mwy abl.

Er mwyn cefnogi datblygiad llythrennedd ar draws y cwricwlwm, trefnodd yr ysgol ddiwrnodau hyfforddi i'r holl staff yn ddiweddar er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac i nodi meysydd o'r fframwaith y gallant eu mabwysiadu yng nghyfnod allweddol 3. Wrth iddynt ddechrau meysydd newydd, mae adrannau unigol bellach yn ystyried ffyrdd y gallant ymgorffori elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau gwaith a chaiff hyn ei gofnodi ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r ffocws ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn nodwedd dda sydd eisoes wedi dechrau cael effaith ar ddatblygiad medrau llythrennedd. Fodd bynnag, megis dechrau y mae hyn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod rhediad a her ddigonol mewn gwersi**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ym mhob sesiwn a arsylwyd yn ystod yr ymweliad, roedd tystiolaeth o ystod dda o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda a arweiniodd at rediad a her briodol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Roedd hyn yn golygu bod yr holl ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn bwrw ymlaen â'r dasg.

Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi wedi canolbwyntio'n ddigon cyson ar yr agwedd hon ar addysgu ac felly nid yw rheolwyr eto'n gallu bod yn siŵr bod rhediad a her briodol gan bob gwers.

**Argymhelliad 3: Sicrhau cymorth mwy gweithredol i ddisgyblion gan staff cymorth dysgu arbenigol, pan fyddant mewn gwersi pwnc**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r cydlynydd AAA newydd wedi gwneud cynnydd da iawn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn dros gyfnod byr.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu system lle y mae staff cymorth arbenigol yn gweithio gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth lle y bo'n briodol. Mae

hyn yn eu galluogi nhw i weithio'n agosach ag athrawon pwnc er mwyn rhannu strategaethau ac adnoddau addysgu. Mae'r cydlynydd AAA wedi addasu polisi a llawlyfr yr adran i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Nodwedd gadarnhaol iawn yw'r defnydd datblygol o dechnoleg gynorthwyol i gefnogi disgyblion mewn gwersi a chynyddu eu hannibyniaeth.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae gan staff pwnc ddealltwriaeth well o anghenion unigol disgyblion a strategaethau penodol i gefnogi eu dysgu. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r cymorth gweithgar yn y dosbarth, ond mae gan yr ysgol gynlluniau priodol i ddatblygu hyn ymhellach.

**Argymhelliad 4: Gwerthuso'r system bresennol o gynlluniau addysg unigol a'u heffaith i sicrhau eu bod yn ddefnyddiol i'r staff arbenigol a'r staff pwnc**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r cydlynydd AAA newydd wedi gwneud cynnydd da iawn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dros gyfnod byr.

Mae'r ysgol wedi cynhyrchu fformat newydd ar gyfer cynlluniau addysg unigol (CAUau), sy'n cynnwys targedau sy'n benodol a mesuradwy ac sy'n gallu cael eu defnyddio gan staff pwnc a staff arbenigol ar draws yr ysgol. Mae'r CAUau newydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon dosbarth ynghylch anghenion disgyblion unigol a'r strategaethau i'w cefnogi.

Mae staff yn arfarnu ansawdd y CAUau yn barhaus, ac wedi nodi meysydd i'w datblygu y maent yn mynd i'r afael â nhw. Mae'r cydlynydd AAA yn gweithio'n agos gydag athrawon pwnc a staff arbenigol i wella ymhellach ansawdd y CAUau a'u defnydd.

**Argymhelliad 5: Parhau i gryfhau gwerthusiadau staff a datblygu ymhellach y cyfleoedd i staff rannu arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei phrosesau gwerthuso staff. Mae penaethiaid adran bellach yn cynnal arsylwadau ffurfiol ar wersi bob tymor, yn ogystal â'r rhai a gynhelir gan yr uwch dîm rheoli. Mae'r wybodaeth o'r holl arsylwadau gwersi yn cael ei hystyried yn ystod cyfarfodydd gwerthuso ffurfiol. Fodd bynnag, ni chaiff y cyfarfodydd gwerthuso hyn, a gynhelir bob chwe mis, eu cynnal yn ddigon aml.

Mae'r ysgol wedi cynhyrchu ffurflen arsylwi gwersi newydd, sy'n darparu canllawiau priodol ar gyfer gwerthuso addysg a safonau. Fodd bynnag, nid yw'r ffurflenni hyn yn cael eu defnyddio'n gyson eto ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio sesiynau hyfforddi ar gyfer pob pennaeth adran i gynnal arsylwadau gwersi yn effeithiol.

Mae cyflwyno arsylwadau gwersi amlach wedi galluogi penaethiaid adran ac uwch reolwyr i nodi arfer dda. Caiff athrawon eu hannog i arsylwi eu gwersi ei gilydd er mwyn cynyddu eu gwybodaeth a gwella'u strategaethau addysgu ar draws yr ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | St David's College |
| **Rhif yr ysgol** | 662 6017 |
| **Diben yr ymweliad** | Ymweliad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 19 ac 20 Mawrth 2014 |
| **Perchennog** | St David's Trust |
| **Staff** | 8 rhiant tŷ amser llawn<br>38 athro amser llawn a 23 rhan-amser<br>2 gynorthwyydd dosbarth: 1 amser llawn, 1 rhan-amser<br>Therapydd Galwedigaethol (5 awr y mis)<br>Therapydd Iaith a Lleferydd (5 awr yr wythnos yn ystod y tymor) |
| **Nifer y disgyblion** | 238<br>Disgyblion dydd: 120<br>Disgyblion preswyl: 118 |
| **Darpariaeth** | Dydd a phreswyl yn ystod y tymor |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau dysgu penodol, anawsterau dysgu cymedrol ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Hydref 2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 3 a 4 Tachwedd 2010 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 6 Medi 2012 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Caroline Rees |
| **Arolygydd Tîm** | Meinir Rees |